**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced**

354/52

**DYLUNIO A THECHNOLEG**

**TECHNOLEG BWYD DT4**

P.M. DYDD MAWRTH, 19 Mehefin 2007

(3 Awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **dri** chwestiwn o Adran A.

Atebwch **bedwar** cwestiwn o Adran B.

Atebwch **ddau** gwestiwn o Adran C.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Os yw'n briodol, dylech ategu ac egluro eich atebion â brasluniau a/neu ddiagramau.

Ni ddylai'r atebion yn **Adran A** ac **Adran B** fod yn fwy na hanner tudalen. Pwrpas yr adrannau hyn yw dangos **hyd a lled** eich gwybodaeth am Dechnoleg Bwyd.

Dylai'r atebion yn **Adran C** fod yn sylweddol a dylent ddangos **dyfnder** eich gwybodaeth am Dechnoleg Bwyd.

Atgoffir chi bod angen i chi ysgrifennu Cymraeg da a chyflwyno eich atebion yn drefnus.

## ADRAN A

*Atebwch* **dri** *chwestiwn o'r adran hon.*

*Ni ddylai'r ateb i unrhyw gwestiwn fod yn fwy na thua 150 o eiriau.*
*Pwrpas yr adran hon yw dangos* **hyd a lled** *eich gwybodaeth am Dechnoleg Bwyd.*

***Mae 8 marc am bob cwestiwn.***

**1.** *(a)* Nodwch achosion **un** math o wenwyn bwyd a enwir gennych. [2]

*(b)* Amlinellwch ddulliau a ddefnyddir gan wneuthurwyr i leihau'r perygl o wenwyn bwyd. [6]

**2.** *(a)* Disgrifiwch *gylchred oes cynnyrch*, gan ddefnyddio diagramau lle bo'n berthnasol. [4]

*(b)* Lluniadwch ddiagram wedi'i labelu yn dangos cylchred oes cynnyrch bwyd sydd â chyfradd mabwysiadu araf *(slow rate of adoption)*. [4]

**3.** Mae ystadegau'n dangos bod nifer y bobl sy'n dioddef o glefyd coeliag neu ddiabetes ar gynnydd.

*(a)* Esboniwch anghenion deietegol arbennig **un** o'r grwpiau hyn. [3]

*(b)* Esboniwch sut mae cynhyrchion bwyd a enwir gennych wedi cael eu haddasu i gwrdd ag anghenion y grŵp hwn. [5]

**4.** *(a)* Disgrifiwch sut mae gwenith yn cael ei falu'n flawd. [4]

*(b)* Amlinellwch y manteision i'r iechyd o fwyta grawnfwydydd grawn cyflawn. [4]

**5.** Esboniwch bwysigrwydd y canlynol wrth wneud ymchwil i'r farchnad cyn datblygu cynnyrch:

*(a)* y gynulleidfa darged; [4]

*(b)* tueddiadau'r farchnad. [4]

## ADRAN B

*Atebwch* **bedwar** *cwestiwn o'r adran hon.*

*Ni ddylai'r ateb i unrhyw gwestiwn fod yn fwy na thua 150 o eiriau.*
*Pwrpas yr adran hon yw dangos* **hyd a lled** *eich gwybodaeth am Dechnoleg Bwyd.*

***Mae 8 marc am bob cwestiwn.***

**6.** Mae cysondeb gweledol *(visual consistency)* cynhyrchion bwyd yn bwysig iawn.

Amlinellwch ddulliau a ddefnyddir gan wneuthurwyr bwyd i gynnal cysondeb gweledol cynhyrchion bwyd a enwir gennych. [8]

**7.** Enwch **bedwar** defnydd bwyd smart a disgrifiwch y nodweddion sy'n peri iddynt gael eu dosbarthu'n ddefnyddiau *SMART*. 4 × [2]

**8.** Gall fitaminau gael eu colli o rai bwydydd wrth iddynt gael eu prosesu. Amlinellwch sut y gellir goresgyn y broblem hon. [8]

**9.** Mae gan siwgrau nifer o briodweddau a ddefnyddir wrth gynhyrchu bwyd. Esboniwch sut y defnyddir **dwy** o briodweddau siwgrau wrth weithgynhyrchu cynhyrchion bwyd penodol a enwir gennych. 2 × [4]

**10.** Mae bwydydd o ffynonellau lleol yn dod yn fwy cyffredin yn y siopau.
Trafodwch y rhesymau dros y duedd hon. [8]

**11.** Enwch **un** broses a ddefnyddir wrth weithgynhyrchu cynnyrch bwyd a enwir gennych, a:

*(a)* disgrifiwch sut y câi ei gwneud yn yr ystafell ddosbarth; [2]

*(b)* disgrifiwch sut y câi ei gwneud yn ystod cynhyrchu ar raddfa fwy; [2]

*(c)* gwerthuswch **bob un** o'r dulliau hyn. 2 × [2]

## ADRAN C

*Atebwch* **ddau** *gwestiwn o'r adran hon.*

*Dylai eich atebion fod yn sylweddol a dylent ddangos* **dyfnder** *eich gwybodaeth am Dechnoleg Bwyd.*

***Mae 22 o farciau am bob cwestiwn, a 2 o'r marciau hyn am gyfathrebu eglur.***

**12.** Mae materion amgylcheddol yn cael sylw gan y cyfryngau yn aml. Trafodwch ffyrdd y mae dylunwyr a gwneuthurwyr bwyd wedi newid cynhyrchion bwyd a phecynnau bwyd er mwyn eu gwneud yn fwy cyfeillgar i'r amgylchedd. [22]

**13.** Mae marchnad gynyddol am gynhyrchion bwyd wedi'u cyfnerthu *(fortified)*, probiotig a maethyllol *(nutraceutical)*. Gan ddefnyddio cynhyrchion bwyd a enwir gennych yn enghreifftiau:

*(a)* esboniwch ystyr **pob un** o'r termau hyn; 3 × [3]

*(b)* trafodwch yr honiadau a wneir gan gynhyrchwyr y cynhyrchion hyn. [11]

*Cyfathrebu eglur* [2]

**14.** Amlinellwch y ffactorau i'w hystyried wrth ddylunio cynhyrchion bwyd i blant. [22]

**15.** Nodweddion a all gael effaith sylweddol wrth werthu cynhyrchion yn y farchnad yw'r pedair elfen farchnata *(the Four Ps)*.

Disgrifiwch nodweddion hanfodol **pob un** o'r pedair elfen farchnata a chysylltwch hwy â chynnyrch bwyd o'ch dewis, gan nodi sut y mae **pob un** yn dylanwadu ar ba mor werthadwy *(marketable)* yw'r cynnyrch. [22]

**16.** Mae llawer o wneuthurwyr yn dymuno cynyddu oes silff eu cynhyrchion bwyd i'r eithaf.

*(a)* Amlinellwch y manteision *(benefits)* i'r gwneuthurwr o gynhyrchu cynhyrchion bwyd sydd ag oes silff hwy. [4]

*(b)* Disgrifiwch **ddau** ddull gwahanol a ddefnyddir gan wneuthurwyr i estyn oes silff cynhyrchion bwyd, gan nodi **dwy** o fanteision a **dwy** o anfanteision **pob un**. 2 × [8]

*Cyfathrebu eglur* [2]